CYFRI COST CANSER

NI YW MACMILLAN.
CYMORTH CANSER

NI YW MACMILLAN.
CYMORTH CANSER

Adroddiad Cymorth Canser Macmillan yng Nghymru

RHAGAIR

"Pan feddylia pobl am ganser nid ydynt fel arfer yn meddwl am arian. Ond y ffaith drist amdani yw mai arian yw un o brif bryderon llawer o bobl sy'n cael canser. Canser yw'r frwydr galetaf y bydd y rhan fwyaf ohonom yn gorfod ei hwynebu. Gall diagnosis o ganser olygu cymryd cyfnod hir i ffwrdd o'r gwaith, sy'n golygu gostyngiad mawr mewn incwm. Ar yr un pryd mae nifer o gostau ynghlwm â chanser – dwsinau o dripiau yn ôl ac ymlaen o'r ysbyty a biliau gwresogi uwch er mwyn ymdopi â'r oerfel a ddaw yn sgil cemotherapi. Ar adeg pan ddylai pobl ganolbwyntio'u holl egni ar ddod yn well, yn anffodus gwyddom fod llawer yn treulio'u hamser yn poeni am arian.

Ond mae help ar gael - mae gwahanol elusennau a mudiadau yn darparu gwasanaethau, llinellau cymorth a gwybodaeth er mwyn helpu pobl i ymdopi â chost canser ar draws Cymru. Mae Macmillan am i bawb sydd wedi'u heffeithio gan ganser yng Nghymru fod yn ymwybodol o'u hawliau, o adeg diagnosis ac ar gamau allweddol yn ystod eu profiad o ganser. Gwyddom o siarad â phobl sydd â chanser, ac oddi wrth ein hymchwil, nad yw hyn yn digwydd ar hyn o bryd i bawb yng Nghymru.

Bwriad ein hymgyrch 'Cyfri cost canser' yw cynyddu ymwybyddiaeth am y materion hyn, ac rydym am sicrhau fod pawb sydd wedi'u heffeithio gan ganser yn cael cyfle i gael mynediad i gyngor a chymorth er mwyn eu helpu i ddelio â'r rhan hon o'u profiad o ganser."

Susan Morris
Rheolwr Cyffredinol Cymru, Cymorth Canser Macmillan

Tlodi canser yng nghymru

I nifer o bobl yng Nghymru, mae tlodi canser yn bryder go iawn. Gall y gair 'tlodi' fod yn un sensitif ac yn aml mae pobl yn credu nad yw'n berthnasol i'w sefyllfa nhw, neu gallant fod yn amharod i siarad am eu sefyllfa ariannol. Ond gall diagnosis o ganser newid popeth. Gwyddom oddi wrth ein hymchwil ac o siarad â phobl sydd wedi'u heffeithio gan ganser bod materion ariannol a chost canser yn bryder cynyddol i bobl yng Nghymru, ar hyn o bryd yn enwedig. Mae yna wasgfa ar swyddi, mae budd-daliadau lles o dan archwiliad ac mae costau byw sylfaenol, fel bwyd a thanwydd, yn cynyddu'n aruthrol. Ar ben hyn oll mae'r ffaith fod enillion ar gyfartaledd yng Nghymru dros £80 yr wythnos yn llai na chyfartaledd y DU.

Mae nifer y bobl sydd wedi'u heffeithio gan ganser yng Nghymru yn cynyddu ac mae disgwyl y bydd yn codi ymhellach. Amcangyfrifir y bydd nifer y bobl sy'n byw gyda chanser yng Nghymru yn dyblu yn ystod yr 20 mlynedd nesaf, i bron i chwarter miliwn, os bydd y duedd bresennol yn parhau[i]. Mewn nifer o achosion mae'r pwysau ariannol sy'n deillio oddi wrth ddiagnosis o ganser yn cael effaith bersonol fawr. Dywed dros 50% o bobl sydd wedi cael diagnosis o ganser eu bod yn poeni am eu sefyllfa ariannol. Gall y pwysau hwn arwain at effeithiau emosiynol ac iechyd meddwl, gyda 41% o gleifion yn teimlo mwy o straen o ganlyniad, a gall roi pwysau ar berthynas pobl â'i gilydd yn achos bron i chwarter y bobl sy'n byw gyda chanser[ii].

Gall cyngor a chefnogaeth newid popeth, ond ar hyn o bryd, nid yw cleifion na'u teuluoedd yn cael cynnig cymorth a chyngor ariannol fel mater o drefn wrth iddyn nhw dderbyn diagnosis. Dywed llai na hanner y bobl a gafodd ddiagnosis o ganser yng Nghymru iddyn nhw dderbyn cymorth neu gyngor ariannol gan unrhyw ffynhonnell[iii]. Mae'r ffigwr hwn yn is eto ymysg y rhai sy'n hŷn na 65 oed, gyda llai nag un o bob tri ohonynt yn derbyn cymorth[iv]. Dim ond chwarter y bobl sydd â chanser sy'n trafod eu sefyllfa ariannol gyda gweithiwr iechyd neu ofal cymdeithasol proffesiynol, ac eto mae'r ffigwr hwn yn gostwng i 11% yn unig ymhlith y rhai sy'n hŷn na 65 oed[v]. Gwyddom fod pryderon ariannol yn gyffredin ymhlith cleifion canser ar draws y DU, ond mae rhwystrau rhag cael gafael ar wybodaeth yn bryder arbennig yng Nghymru, oherwydd natur wledig y wlad a'r ffaith fod y boblogaeth yn hŷn ar gyfartaledd o gymharu â gweddill y DU. Mae Macmillan am i hyn newid.

Ar hyn o bryd nid yw cleifion yn cael cynnig y cyfle i gael cefnogaeth ariannol addas ar gyfer pobl sydd wedi'u heffeithio gan ganser, fel mater o drefn, gydol eu profiad o ganser. Gall cael gafael ar gyngor amserol ac addas am fudd-daliadau leihau caledi ariannol yn sylweddol, gall leddfu pryder a straen, gwella safon bywyd a helpu pobl i wneud penderfyniadau hyddysg gydol eu profiad o ganser. Mae'r dirywiad yn yr economi hefyd yn cynyddu'r risg o golli swyddi clinigol ac anghlinigol a oedd yn draddodiadol yn darparu cymorth a gwybodaeth anffurfiol ynghylch cost canser.

Bwriad ymgyrch Cyfri Cost Canser Macmillan yw lleihau effaith ariannol canser ar bobl yng Nghymru drwy wneud y canlynol:

a. Cynyddu ymwybyddiaeth o effaith ariannol canser ymhlith y cyhoedd, cefnogwyr a rhanddeiliaid.

b. Dylanwadu ar randdeiliad fel eu bod yn deall, yn cydnabod ac yn ymateb i bwysigrwydd sicrhau bod cymorth a chyngor ariannol ar gael fel mater o drefn i bobl sydd wedi'u heffeithio gan ganser yng Nghymru.

c. Sicrhau fod pawb sy'n cael diagnosis o ganser yng Nghymru yn cael cynnig y cyfle i gael gafael ar gymorth a chyngor ariannol, fel mater o drefn, fel rhan o'r asesiad a'r broses cynllunio gofal.

d. Sicrhau gwasanaethau cymorth a chyngor ariannol cynaliadwy a datblygu gwasanaethau lle nad oes rhai yn bodoli.

Comisiynom grŵp ymchwil The Monitor Group i gasglu'r ymchwil presennol ynghyd er mwyn modelu effaith ariannol canser ar bobl sydd wedi cael diagnosis o ganser yng Nghymru – yn nhermau colledion incwm a chostau uwch dros gyfnod o flwydd a phum mlynedd wedi diagnosis[vi]. Rydym hefyd wedi siarad gyda llawer o bobl sydd wedi'u heffeithio gan ganser ynglŷn â'u profiadau. Ond gallai canser tlodi fod yn fwy eang na'r hyn a ddengys ein hymchwil ni hyd yn oed. Er enghraifft, ni lwyddasom i gyfrifo'r goblygiadau ariannol i ffrindiau, i deuluoedd ac i ofalwyr pobl sydd wedi'u heffeithio gan ganser - ar gyfer y costau tanwydd, er enghraifft, o'r holl deithiau yn ôl ac ymlaen i apwyntiadau yn yr ysbyty neu i'r siopau ar neges. Mae ein hymchwil wedi darparu amcangyfrif o effaith ariannol canser dros bum mlynedd, wrth i gostau gynyddu ymhell wedi diagnosis. Rydym yn ymwybodol fodd bynnag y gallai costau barhau wedi hynny. Ond heb unrhyw amheuaeth, mae tlodi canser yn fater sy'n effeithio ar bob cymuned yng Nghymru.

Cost canser

"Roedd y newid yn yr hyn rwy'n gallu ei fwyta yn ddrud gan fod gennyf diwmor ar fôn fy nhafod ac mae radiotherapi wedi niweidio fy chwarennau poer. Roedd hi'n fater o brofi a methu ar y cychwyn a chafodd llawer o fwyd ei wastraffu.

Roeddwn i hefyd yn teimlo'r oerfel yn brathu mwy pan ddes i adref o'r ysbyty. Roedd y gwres ymlaen y rhan fwyaf o'r amser, gan ddyblu ein bil nwy, fel bod yn rhaid i ni ddefnyddio rhywfaint o'n cynilion."

Derek, Caerffili

Mae cael canser yn ddrud. Dengys ein hymchwil presennol bod dros 50% o bobl sydd â diagnosis o ganser yng Nghymru yn poeni am eu sefyllfa ariannol, ac mae un o bob pedwar wedi gorfod torri ar wariant arferol yr aelwyd [vii]. Mae un o bob pump yn cael trafferthion i dalu eu biliau, eu rhent neu eu morgais, a gwyddom o siarad â chleifion bod rhai yn colli eu cartref ar ôl diagnosis, mewn achosion eithafol.

Colli incwm yw un o'r goblygiadau ariannol mwyaf i bobl sy'n cael diagnosis o ganser. Mae 43% o'r rhai sydd mewn gwaith ar adeg y diagnosis yn colli incw[viii], a gellid effeithio ar incwm priod neu bartner hefyd os oes angen iddyn nhw roi'r gorau i'r gwaith neu leihau eu horiau er mwyn gofalu am bobl sydd â chanser. O'r rhai sydd mewn gwaith ar adeg diagnosis, bydd angen i tua 15% roi'r gorau i waith yn gyfan gwbl, a bydd yn rhaid i dri o bob deg newid eu statws gweithio mewn rhyw ffordd[ix].

Mae'r colledion incwm ar eu mwyaf yn y flwyddyn gyntaf wedi diagnosis, wrth i unigolyn ar gyfartaledd golli amcangyfrif o 20% - £5,500 yng Nghymru – o'u henillion cyflogaeth. Dros bum mlynedd, amcangyfrifir mai'r golled ar gyfartaledd i incwm yw £16,500. Mae effaith hyn yn amrywio'n enfawr. Er enghraifft, os ydym yn diystyru o'r ffigyrau hyn y bobl nad ydyn nhw'n newid eu statws gweithio, yna mae tua 50% - £13,500 – o enillion cyflogaeth yn cael eu colli yn y flwyddyn gyntaf. Mae'r effaith i'w deimlo'n arbennig yn achos y rhai hynny nad ydyn nhw'n gweithio. Er nad ydyn nhw'n dioddef colledion incwm, mae'r costau uwch sy'n gysylltiedig â diagnosis o ganser yn debygol o lyncu cyfran fawr o'u hincwm, sy'n sefydlog ac yn isel ar y cyfan.

Ymhlith y prif gostau uwch y mae cleifion canser a'u teuluoedd yn eu hwynebu mae:

a) Costau teithio

Cost ychwanegol a wynebir gan amcangyfrif o 95% o gleifion yw costau teithio wrth fynd yn ôl ac ymlaen o apwyntiadau yn yr ysbyty . Ar gyfartaledd, amcangyfrifir bod hyn yn gyfanswm o £275 i bob claf yn y flwyddyn gyntaf, ac yn £400 dros bum mlynedd. Fel arfer mathau o ganser fel canser y fron a lewcemia sy'n golygu'r nifer mwyaf o apwyntiadau yn yr ysbyty, a phobl sy'n byw ym Mhowys sy'n wynebu'r pellteroedd hwyaf i'w canolfan ganser agosaf, gyda thripiau yn ôl ac ymlaen yn para pedair awr ar gyfartaledd. Mae cost teithio dros bum mlynedd i glaf ym Mhowys wedi'i hamcangyfrif yn £1,440, sy'n sylweddoli uwch na'r cyfartaledd trwy Gymru.

Mae profiad pob claf o ganser yn wahanol. Mae'n rhaid i nifer o gleifion deithio i amryfal ganolfannau canser ar gyfer triniaethau. Rydym yn rhagweld ein bod wedi amcangyfrif yn rhy isel beth yw'r gwir gostau teithio a wynebir gan gleifion canser, oherwydd natur gymhleth triniaethau canser, a natur wasgaredig canolfannau canser Cymru. Ni edrychodd ein hymchwil ni ond ar daith y claf i'w ganolfan ganser agosaf, ond gwyddom na all llawer o gleifion gael eu trin yn eu canolfan agosaf oherwydd natur eu canser, neu natur eu triniaeth. Ychwaith nid ydym wedi cyfrif y costau teithio a wynebir gan ffrindiau ac aelodau o'r teulu, sydd yn sylweddol mewn aml i achos.

b) Costau dillad

Gall triniaethau fel cemotherapi achosi i rywun golli neu fagu llawer o bwysau. Amcangyfrif bod 40% o gleifion yn wynebu'r gost hon[xi]. O ganlyniad mae llawer o bobl yn darganfod bod arnyn nhw angen dillad newydd - nid dilledyn neu ddau yn unig ond wardrob gyfan. Hwyrach y bydd arnyn nhw hefyd angen pethau fel wigiau a bandanas. Amcangyfrifir mai'r gost ar gyfartaledd i bobl sydd angen yr eitemau hyn yw £400 dros bum mlynedd, gyda mwyafrif y costau'n codi yn y flwyddyn gyntaf.

c) Biliau uwch

Gall biliau'r aelwyd bentyrru'n ddramatig ar ôl diagnosis. Gall biliau tanwydd gynyddu gan fod cleifion gartref yn fwy nag arfer ac maen nhw'n fwy tebygol o deimlo'r oerfel yn ystod triniaeth. Gall biliau ffôn a'r rhyngrwyd gynyddu wrth i bobl deimlo'r angen am fwy o ryngweithio cymdeithasol er mwyn ymladd arwahanrwydd ac unigedd. Gall biliau bwyd gynyddu, yn enwedig yn achos cleifion sydd yn gorfod dilyn diet arbennig. Mae llawer o gleifion yn sôn am yr angen i brynu eitemau na fyddai neb wedi rhagweld, megis dillad gwely trwchus iawn, pethau ymolchi arbenigol, a mathau arbennig o frws dannedd. Gyda'i gilydd mae hyd yn oed yr eitemau rhad yn costio swm sylweddol.

d) Costau eraill

Mae costau ychwanegol hefyd yn effeithio ar rai pobl sydd â chanser, er enghraifft gorfod addasu'r cartref, costau gofal plant, a chostau aros dros nos. Rydym yn gwybod y gall y costau yma fod yn sylweddol ar gyfer cleifion penodol, ond nid oedd modd eu cynnwys yn ein hymchwil.

"Ni allai fy ngŵr weithio, ac ar unwaith galwodd y banc fenthyciad yn ôl a chawsom ein gwneud yn fethdalwyr. Ni ddylid cosbi rhywun am gael canser. Heb Macmillan does gen i ddim syniad sut y byddem wedi goroesi gan nad oedd unrhyw arian yn dod i'r cartref. Mae yna bethau bychan na fyddai rhywun wedi'u hystyried. Roedd ar Ian angen dillad newydd gan ei fod wedi colli cymaint o bwysau, ac roedd arnom angen dillad mwy trwchus ar y gwely i'w gadw'n gynnes. Roedd arnom ni hefyd angen £500 i lenwi'r tanc olew ar gyfer y gaeaf."

Nikki, Ceredigion

Y darlun ehangach

Diwygio lles

Yn ddiweddar mae Llywodraeth y DU wedi newid y ffordd y mae'r system lles yn gweithio. Gall Deddf Diwygio Lles 2012 olygu y bydd hyd at 7,000 o gleifion canser ar draws y DU yn colli hyd at £94 yr wythnos [xii]. Gall y newidiadau i'r system budd-daliadau adael pobl sydd â chanser heb gymorth hanfodol ar yr adeg y mae mwyaf o'i angen, a'u gwthio i ddlodi.

Tlodi Tanwydd

Mae nifer o bobl sydd wedi'u heffeithio gan ganser mewn tlodi tanwydd. Mae aelwyd mewn tlodi tanwydd os oes angen i'r preswylwyr wario dros 10% o'u hincwm ar danwydd er mwyn cadw'n gynnes. Mae pobl sydd wedi'u heffeithio gan ganser yn wynebu'r pwysau ariannol a amlinellir uchod, ond ar ben hynny, mewn sawl achos gall canser waethygu tlodi tanwydd wrth i filiau tanwydd gynyddu. Mae hyn am fod cleifion gartref yn amlach nag arfer ac am eu bod yn fwy tebygol o deimlo'r oerfel yn ystod triniaeth.

Straen

Gall pryderon ariannol achosi straen i gleifion canser ar yr adeg waethaf. Dywed mwy na phedwar o bob deg o gleifion canser bod effaith canser wedi achosi mwy o straen a phryder iddyn nhw, ac mae tua chwarter yn dweud iddo roi straen ar eu perthynas ag eraill [xiii]. Gall straen effeithio'n fawr ar glaf, gan arwain at broblemau emosiynol a iechyd meddwl – a gall hyn oll effeithio ar yr amser sydd ei angen ar glaf i wella o ganser.

Rydw i'n hunangyflogedig ond nid wyf yn medru ymdopi gyda'r straen corfforol o redeg gwesty mwyach. Rwyf wedi colli dwy stôn a hanner yn dilyn y driniaeth ac mae'n anodd cynnal fy mhwysau gan fod bwyta mor anghyfforddus. Roedd rhaid i mi roi'r busnes ar werth, ond wrth i mi geisio chwilio am brynwyr, mae'n rhaid i mi dalu'r biliau.

Yn ffodus iawn, fe wnaeth nyrs ddweud wrthyf yn yr ysbyty efallai y byddaf yn gymwys am gefnogaeth a chyfeiriodd hi fi at Ymgynghorwyr Budd-dal Lles. Dwi nawr yn derbyn cymorth, ond gan fy mod i yn hunangyflogedig mae gen i gostau ychwanegol i'w talu.

Y realiti yw, os ydych chi'n hunangyflogedig ac yn methu â gweithio nid ydych yn medru ennill arian ond mae'r biliau yn dod mewn o hyd - does dim rhwyd diogelwch ar gyfer y dyddiau pan mae'n anodd codi o'r gwely.

Sheila, Llandudno

COSTIAU UWCH

Costau uwch dros gyfnod o bum mlynedd ar ol diagnosis, yn seiliedig ar waith modelu effaith ariannol canser ar bobl sydd wedi cael diagnosis o ganser yng Nghymru gan 'The Monitor Group'. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth yn y tabl yn Atodiad A.

1. Sir Fynwy
2. Casnewydd
3. Torfaen
4. Blaenau Gwent
5. Caerffili
6. Caerdydd
7. Merthyr Tudful
8. Rhondda Cynon Taff
9. Bro Morgannwg
10. Penybont
11. Castell nedd Port Talbot
12. Abertawe
13. Sir Caerfyrddin
14. Sir Benfro
15. Ceredigion
16. Powys
17. Gwynedd
18. Ynys Mon
19. Conwy
20. Sir Ddinbych
21. Sir y Fflint
22. Wrecsam



Gan Bowys mae'r costau uwch mwyaf ar gyfartaledd dros 5 mlynedd i bob person â diagnosis o ganser, gydag amcangyfrif o £2,556. Mae costau teithio i dderbyn triniaeth yn ffactor pwysig yn y costau uwch hyn.

£1,000 - £1,500	
£1,501 - £2,000	
£2,001 - £2,500	
£2,501 - £3,000	

COLLEDION INCWM

Colledion incwm dros gyfnod o bum mlynedd wedi diagnosis, yn seiliedig ar waith modelu effaith ariannol canser ar bobl sydd wedi cael diagnosis o ganser yng Nghymru gan 'The Monitor Group'. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth yn y tabl yn Atodiad A.

1. Sir Fynwy
2. Casnewydd
3. Torfaen
4. Blaenau Gwent
5. Caerffili
6. Caerdydd
7. Merthyr Tudful
8. Rhondda Cynon Taff
9. Bro Morgannwg
10. Penybont
11. Castell nedd Port Talbot
12. Abertawe
13. Sir Caerfyrddin
14. Sir Benfro
15. Ceredigion
16. Powys
17. Gwynedd
18. Ynys Mon
19. Conwy
20. Sir Ddinbych
21. Sir y Fflint
22. Wrecsam



Gan Fro Morgannwg mae'r colledion incwm mwyaf ar gyfartaledd dros 5 mlynedd i bob person â diagnosis o ganser a oedd mewn gwaith adeg diagnosis, gydag amcangyfrif o £18,200. Mae hyn yn gysylltiedig â'r ffaith fod cyflogau yn y sir gyda'r uchaf ar gyfartaledd yng Nghymru.

£14,000 - £15,000	
£15,001 - £16,000	
£16,001 - £17,000	
£17,001 - £18,000	
£18,001 - £19,000	

Helpu pobl i ymdopi â chost canser

"Roeddwn wedi bod yn gweithio dramor a deuthum gartref gyda'r nesaf peth i ddim. Roedd y gymdeithas dai yn wych gan roi fflat i fi, ond doedd dim un celficyn gen i i'w roi ynddo fe. Rhoddodd Macmillan grant i fi er mwyn prynu celfi ac addurno rhywfaint. Ni fyddwn wedi gallu gwneud hyn hebddyn nhw. Doeddwn i erioed wedi hawlio ceiniog cyn hynny a doedd gen i ddim clem am fudd-daliadau."

Colin, Merthyr Tudful

Mae help ar gael ar gyfer pobl sydd wedi'u heffeithio gan ganser, a'u teuluoedd. Mae Macmillan yn cyllido Ymgynghorwyr Budd-dal Lles mewn sawl rhan o Gymru, sy'n gallu cynghori cleifion pa fudd-daliadau y mae ganddyn nhw'r hawl i'w derbyn, a'u helpu i lenwi ffurflenni hir a chymhleth. Mae Ymgynghorwyr Budd-dal Lles Macmillan yng Nghymru wedi helpu dros 2,000 o bobl sydd wedi'u heffeithio gan ganser i hawlio bron i £7m mewn budd-daliadau, ac wedi cynnig ystod eang o gyngor ar ddyled, tai, cyflogaeth a effeithlonrwydd egni yn 2011.

Gall ein timau budd-dal lles hefyd roi cyngor i gleifion ar grantiau Macmillan – taliadau unigol sy'n helpu gyda chostau penodol fel biliau gwresogi, dillad neu offer arbenigol. Yn 2011, cafodd 1,763 o bobl yng Nghymru grantiau Macmillan, sef cyfanswm o dros £600,000. Mae yna ffynonellau eraill sy'n cynnig help ac arweiniad ar draws Cymru, ac mae cynnal y gwasanaethau hyn yn hanfodol.

Mae ar lawer o bobl angen cymorth ond nid pawb sy'n ei gael, yn aml iawn am nad ydyn nhw'n gwybod ei fod ar gael nes ei bod hi'n rhy hwyr wedi eu diagnosis. Yn syml, nid yw pobl yn cael eu holi a oes angen cyngor arnyn nhw.

Rydym ni am i bawb sy'n cael diagnosis o ganser gael cynnig y cyfle i gael gafael ar gyngor a chymorth ariannol. Ein nod yw bod gweithwyr iechyd proffesiynol yn codi cost canser, fel mater o drefn, yn eu trafodaethau cychwynnol gyda phobl sydd wedi'u heffeithio gan ganser. Mae Macmillan yng Nghymru yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru er mwyn cyflwyno cynllunio gofal ac asesu personol ar gyfer pob unigolyn sy'n cael diagnosis o ganser. Rydym ni am sicrhau cynnwys cost canser yn hyn.

Nid oes arnom eisiau i weithwyr iechyd proffesiynol ddod yn ymgynghorwyr budd-dal, ac ni fyddem yn disgwyl hynny. Yn syml rydym ni am iddyn nhw godi'r cwestiwn o'r dechrau'n deg drwy holi cleifion a ydyn nhw'n ymwybodol bod cyngor ariannol ar gael ar eu cyfer nhw a'u teuluoedd neu ofalwyr. Drwy gyfeirio cleifion at wasanaethau lles gan gynnwys Ymgynghorwyr Budd-dal Lles lleol a Llinell Gymorth Macmillan – ble mae ymgynghorwyr cymwys yn siarad â phobl am faterion ymarferol, meddygol, emosiynol ac ariannol – bydd pob claf gam yn nes at gynllun gofal teilwredig sy'n addas at ei anghenion unigol.

"Cefais fy ngwneud yn ddi-waith cyn gynted i mi sôn wrth fy nghyflogwyr am fy niagnosis. Yn sydyn nid oedd unrhyw incwm gennyf ond roedd y biliau'n cyrraedd o hyd a'r morgais angen ei dalu. Gall rhywun sydd â chanser wneud heb y pryder ychwanegol hwnnw. Yn ffodus mae ein cymydog yn nyrs ardal ac fe ddywedodd hi wrthym am Macmillan. Roeddwn yn gallu cael grant ar gyfer dillad gan fy mod wedi colli cymaint o bwysau."

Graham, Pen-y-bont ar Ogwr

Canser yw'r frwydr galetaf y bydd y rhan fwyaf ohonom yn ei hwynebu. Rydym ni am sicrhau y gall pobl sydd wedi'u heffeithio gan ganser sianeli eu hegni i gyfeiriad ymladd canser yn hytrach na phoeni am faterion ariannol. Mae cyngor a chymorth ar gael. Mae Cymorth Canser Macmillan am i bawb sydd â chanser yng Nghymru fod yn ymwybodol o'u hawliau o adeg eu diagnosis ac ar gamau allweddol yn ystod eu profiad o ganser. Mae ymgynghorwyr budd-dal lles ar gael ar draws Cymru, a gall pobl sydd wedi'u heffeithio gan ganser hefyd gysylltu â Llinell Gymorth Macmillan ar 0808 808 00 00 ar gyfer help, cyngor a gwybodaeth ynghylch y gwasanaethau yn eu hardal nhw.

Canser yw'r frwydr galetaf y bydd yn rhaid i'r rhan fwyaf ohonom ei hwynebu fyth, ond does dim rhaid i chi ei hwynebu ar eich pen eich hunan. Mae gennym dîm o arbenigwyr a all ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych, cynnig gymorth, neu dim ond gwrando os oes arnoch chi angen sgwrs.

Ffoniwch Macmillan yn rhad ac am ddim ar 0808 808 00 00

Cyfeirnodau

[i] Amcangyfrifon Cymorth Canser Macmillan yn seiliedig ar Maddams J, et al. Cancer prevalence in the United Kingdom: estimates for 2008. British Journal of Cancer. 2009. 101: 541-547. Gwnaed amcangyfrifon amrwd ar gyfer diwedd 2010, 2020 a 2030 gan dybio y bydd y gyfradd bresennol o gynnydd (3.2%) yn parhau. (Mae amcangyfrifon yn tybio y bydd unrhyw gynnydd yn gyson ar draws pob cenedl ac yn aros yn ddigyfnewid am yr 20 mlynedd. Felly maent yn ddangosol yn unig, nid ydynt yn ddibynadwy yn ystadegol, a gallant newid wrth i ragor o wybodaeth ddod i'r fei.)

[ii] Arolwg ar-lein Cymorth Canser Macmillan/ YouGov (Awst 2011) o 1,697 o bobl sy'n byw gyda chanser yn y DU. Atebodd 197 o bobl o Gymru. Nid yw canlyniadau'r arolwg wedi'u pwysoli.

[iii] ibid

[iv] ibid

[v] ibid

[vi] 'Cancer Poverty in Wales: Holistically measuring and demonstrating the extent of cancer poverty in Wales.' Tachwedd, 2011, 'The Monitor Group' www.macmillan.org.uk/cost

[vii] ibid

[viii] Dadansoddiad mewnol Monitor, yn seiliedig ar arolwg ar-lein Cymorth Canser Macmillan/ YouGov (Chwefror 2010) o 1,912 o bobl sy'n byw gyda chanser yn y DU. Atebodd 173 o bobl o Gymru. Nid yw canlyniadau'r arolwg wedi'u pwysoli.

[ix] Arolwg ar-lein Cymorth Canser Macmillan/ YouGov (Chwefror 2010) o 1,912 o bobl sy'n byw gyda chanser yn y DU. Atebodd 173 o bobl o Gymru. Nid yw canlyniadau'r arolwg wedi'u pwysoli.

[x] Dadansoddiad mewnol Monitor, yn seiliedig ar arolwg ar-lein Cymorth Canser Macmillan/ YouGov (Chwefror 2010) o 1,912 o bobl sy'n byw gyda chanser yn y DU. Atebodd 173 o bobl o Gymru. Nid yw canlyniadau'r arolwg wedi'u pwysoli.

[xi] Dadansoddiad mewnol Monitor, yn seiliedig ar L Sharp, Timmons A. The Financial Impact of a Cancer Diagnosis. 2010. National Cancer Registry Ireland/Irish Cancer Society.

[xii] Mae Macmillan yn amcangyfrif y gallai hyd at 7,000 o gleifion canser golli hyd at £94 yr wythnos. Mae'r ffigwr hwn yn seiliedig ar nifer y cleifion canser sydd ar fudd-daliadau cyfrannol sydd yn y Grŵp sy'n Gysylltiedig â Gwaith o Lwfans Cyflogaeth a Chymorth neu sydd ar hyn o bryd yn hawlio Budd-dal Analluogrwydd ond a fydd yn cael eu gosod yn y Grŵp sy'n Gysylltiedig â Gwaith ar ôl ailasesu pawb sy'n hawlio Budd-dal Analluogrwydd. Am ragor o wybodaeth gweler: http://www.macmillan.org.uk/Aboutus/News/Latest_News/Cancerpatientstoloseupto94aweek.aspx

[xiii] Arolwg ar-lein Cymorth Canser Macmillan/ YouGov (Awst 2011) o 1,697 o bobl sy'n byw gyda chanser yn y DU. Atebodd 197 o bobl o Gymru. Nid yw canlyniadau'r arolwg wedi'u pwysoli.

ATODIAD A

	Poblogaeth (dros 65)	Cyfradd Cyflogaeth	Cyflog ar Gyfartaledd (£'000s) *Cyfartaledd enillion blynyddol amser llawn gros*	Amddifadedd *% o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Is (LSOAau) yn y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru.*	Mynychder (Absoliwt)	Mynychder (Cyfradd Amrwd)	Colledion Incwm (£'000s) *Colledion incwm dros 5 mlynedd ar gyfartaledd i bob person â diagnosis o ganser a oedd mewn gwaith adeg diagnosis*	Costau Uwch (£) *Costau uwch dros 5 mlynedd ar gyfartaledd i bob person â diagnosis o ganser.*
Merthyr Tudful	55.7 (17%)	40.10%	25.1	25%	353	634	15.8	1,367
Blaenau Gwent	68.6 (18%)	37.30%	23.1	23%	433	631	14.3	1,522
Rhondda, Cynon, Taf	234.4 (17%)	40.40%	25.8	18%	1,379	588	15.8	1,352
Caerdydd	336.2 (13%)	47.30%	28.6	16%	1,494	444	17.9	1,180
Casnewydd	140.45 (17%)	41.60%	26.5	16%	831	592	16.9	1,317
Castell Nedd Port Talbot	137.4 (19%)	39.40%	27.2	15%	843	613	16.6	1,172
Caerffili	172.7 (16%)	40.90%	26	15%	961	556	16.5	1,412
Abertawe	231.3 (18%)	42.40%	24.8	12%	1,275	551	15.4	1,203
Pen-y-bont ar Ogwr	134.2 (18%)	42.30%	27.7	11%	856	638	17.4	1,453
Sir Ddinbych	96.7 (21%)	42.50%	27.6	10%	608	629	17.5	1,473
Torfaen	90.7 (18%)	39.20%	26.5	7%	575	634	16.8	1,476
Wrecsam	133.2 (17%)	48.20%	25.8	6%	751	564	16.4	1,551
Bro Morgannwg	124.6 (18%)	45.30%	28.9	6%	700	562	18.2	1,322
Sir Caerfyrddin	180.8 (21%)	41.40%	26	5%	1,135	628	16.6	1,477
Gwynedd	118.8 (20%)	43.70%	23.9	4%	765	644	15.2	1,626
Sir y Fflint	149.9 (17%)	48.50%	27.8	4%	879	586	17.8	1,472
Sir Benfro	117.4 (21%)	43.30%	27.9	4%	789	672	17.6	1,829
Conwy	111.4 (24%)	42.30%	22.6	3%	871	782	14.2	1,747
Ynys Môn	68.8 (21%)	41.70%	25.4	2%	501	729	16.3	1,654
Powys	131.7 (22%)	43.80%	22.5	1%	926	703	14.1	2,556
Ceredigion	76.4 (21%)	43.10%	22.8	0%	389	509	14.7	1,934
Sir Fynwy	88 (20%)	45.40%	24.6	0%	538	612	16	1,581